Heddlu Police
DYFED-POWYS

Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth 182/2021

Cais:

Mae fy nghais am wybodaeth yn ymwneud â nifer y gyrwyr sy'n cael eu dal yn goryrru/cael dirwyon am oryrru yn y DU neu yn eich Sir/Bwrdeistref ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau ym mis Mawrth 2020 a'r flwyddyn flaenorol. Byddwn yn gwerthfawrogi pe bai gennych unrhyw wybodaeth am hyn. Os mai dim ond gwybodaeth fesul blwyddyn galendr sydd gennych, a allwch chi ei e-bostio ataf ar gyfer blwyddyn galendr 2020 a 2019 er mwyn i mi allu cymharu'r ystadegau â'r flwyddyn flaenorol, gyda fy nhîm?

Gofynnwyd am eglurhad gan y ceisydd:

A ydych chi am wybod faint o bobl gafodd eu hatal gan swyddog oherwydd troseddau goryrru? Os ydych chi'n chwilio am nifer y bobl sy'n cael eu dal yn goryrru gan gamera sefydlog/symudol, yna bydd angen i chi gyflwyno cais i'r Uned Camerâu Diogelwch ym Mhontypridd.

Fe wnaethoch ofyn am nifer y modurwyr a gafodd ddirwy am oryrru. A hoffech chi wybod faint o unigolion sydd wedi cael cynnig amodol neu nifer y bobl a gafodd ddirwy yn y llys neu'r ddau?

A allwch chi hefyd egluro a hoffech gael data rhwng 1 Mawrth 2020 a 28 Chwefror 2021 neu o 23 Mawrth pan ddechreuodd y cyfnod clo cyntaf yn swyddogol. A hoffech chi hefyd gael data rhwng 1 Mawrth 2019 a 28 Chwefror 2020?

Ymateb gan y ceisydd:

Yn ddelfrydol, byddai angen gwybodaeth arnaf ar gyfer y ddau; nifer y bobl a gafodd eu hatal gan swyddog oherwydd troseddau goryrru a nifer y bobl a gafodd eu dal yn goryrru gan gamera sefydlog/symudol.

A allwch chi anfon fy ymholiad i'r uned camerâu diogelwch ym Mhontypridd neu anfon yr e-bost/gwybodaeth gyswllt ataf ar gyfer hyn os yw'n bosibl, os gwelwch yn dda?

A allaf gael ffigurau ar gyfer nifer y bobl a gafodd ddirwy yn y llys a chynnig amodol hefyd, os gwelwch yn dda?

O ran y dyddiadau i'r rhain, byddai'n well gen i gael y ddwy set o ddata. Fodd bynnag, os yw'n symlach, byddwn yn hapus â dim ond ystadegau ar gyfer y dyddiadau rhwng; dechrau 2019 a diwedd 2019 a dechrau 2020 a diwedd 2020.

Ymateb:

Mae Adran 1 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod dwy ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus. Oni bai bod eithriadau'n berthnasol, y ddyletswydd gyntaf yn Adran 1(1) (a) yw cadarnhau neu wadu a gedwir yr wybodaeth a bennir mewn cais. Yr ail ddyletswydd yn Adran 1 (1) (b) yw datgelu gwybodaeth y cadarnhawyd ei bod yn cael ei chadw.

Pan ddibynnir ar eithriadau mae Adran 17 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu Dyfed-Powys, wrth wrthod darparu gwybodaeth o'r fath (oherwydd bod y wybodaeth wedi'i heithrio) roi hysbysiad i'r ceisydd sydd: (a) yn nodi'r ffaith honno, (b) yn pennu'r eithriad o dan sylw ac (c) yn datgan (os na fyddai hynny'n amlwg fel arall) pam mae'r eithriad yn berthnasol.

Gallaf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cadw'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani. Fodd bynnag, rydym yn atal y cyfan o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan ein bod o'r farn bod yr eithriad, Adran 12(1) y gost cydymffurfio yn fwy na'r Terfyn Priodol, yn berthnasol iddo.

Adran 12 (1) – y gost cydymffurfio yn fwy na'r Terfyn Priodol

Mae adran 12(1) yn nodi: "... Nid yw adran 1 (1) yn gorfodi awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chais am wybodaeth os yw'r awdurdod yn amcangyfrif y byddai'r gost o gydymffurfio â'r cais yn fwy na'r terfyn priodol."

Mae'r gost o roi'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn perthynas â'ch cais yn uwch na'r swm y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni ymateb iddo h.y. mae'r gost o leoli ac adalw'r wybodaeth yn fwy na'r "lefel briodol" fel y nodir yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth (Ffioedd a Therfyn Priodol) 2004. Amcangyfrifir y byddai'n fwy na 18 awr (h.y. lleiafswm o **28.30** awr) i gydymffurfio â'r rhan hon o'ch cais. Gellir lleoli'r rheoliadau ar https://www.legislation.gov.uk/uksi/2004/3244

Mae'r adran Rhyddid Gwybodaeth wedi cael ei chynghori nad yw'r wybodaeth mewn perthynas â'ch cais, a eglurwyd, yn cael ei chadw mewn fformat hawdd ei adfer. Yng ngoleuni hyn ac er mwyn cael gafael yn gywir ar y wybodaeth sy'n ymwneud â'r rhan o'ch cais, a eglurwyd, sy'n ymwneud â nifer yr unigolion a gafodd ddirwy yn y llys am yr amserlen a bennwyd, byddai'n golygu bod Heddlu Dyfed-Powys yn cyrchu ac yn adolygu cofnodion goryrru sydd wedi'u cyfeirio i'r llys i ddarganfod a arweiniodd y cofnod hwnnw at ddirwy yn y llys. Sefydlwyd bod cyfanswm o 566 o gofnodion yn cwmpasu cyfnod eich cais h.y. blynyddoedd calendr 2019 a 2020. Sefydlwyd hefyd y byddai'n cymryd o leiaf 3 munud i adolygu a darganfod a arweiniodd un cofnod goryrru at ddirwy yn y llys. Amlinellwyd y broses ganlyniadau yn yr amcangyfrif isod.

2019 = 277 cofnod goryrru + o leiaf 3 munud y cofnod = 13.85 awr
2020 = 289 cofnod goryrru + o leiaf 3 munud y cofnod = 14.45 awr

Yr amser amcangyfrifedig i gwblhau tasg = 28.30 awr

Gweler diwedd y ddogfen am wybodaeth sydd wedi'i darparu y tu allan i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac fel arwydd o ewyllys da sy'n ymwneud â nifer yr unigolion a ataliwyd gan swyddog ac a roddwyd cynnig amodol o gosb benodedig, a manylion cyswllt yr Uned Camerâu Diogelwch (ar gyfer troseddau camera sefydlog a symudol).

Yn unol felly â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'r llythyr hwn yn gweithredu fel Hysbysiad Gwrthod ar gyfer y cyfan o'r cais hwn o dan Adran 17(5). Rhaid i awdurdod

cyhoeddus sydd, mewn perthynas ag unrhyw gais am wybodaeth, yn dibynnu ar honiad bod adran 12 neu adran 14 yn berthnasol, o fewn yr amser ar gyfer cydymffurfio ag adran 1(1), roi hysbysiad i'r ceisydd yn datgan y ffaith honno. Efallai yr hoffech fireinio ac ailgyflwyno eich cais fel ei fod yn lleihau'r amser a ddangosir uchod i ddod o fewn y 18 awr. Os bydd angen unrhyw gyngor pellach arnoch mewn perthynas â'r mater hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Uned Rhyddid Gwybodaeth. Cofiwch hefyd, pe bai'r cais yn cael ei fireinio, nad yw'n dileu hawl yr awdurdodau cyhoeddus i ddyfynnu eithriadau os yw'n berthnasol.

Er bod cost ormodol yn dileu rhwymedigaethau'r lluoedd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach, fel arwydd o ewyllys da, rwyf wedi darparu gwybodaeth, mewn perthynas â'ch cais, sydd wedi bod yn bosibl ei hadalw'n hawdd a'i hamlinellu isod. Hyderaf fod hyn yn ddefnyddiol, ond nid yw'n effeithio ar ein hawl gyfreithiol i ddibynnu ar y rheoliadau ffioedd ar gyfer gweddill eich cais.

Blwyddyn	*Nifer yr unigolion a ataliwyd am oryrru gan swyddog ac a gafodd gynnig amodol o gosb benodedig*
2019	*545*
2020	*537*

Mewn perthynas â nifer y dirwyon goryrru a roddwyd gan gamerâu symudol a chamerâu sefydlog, gellir gofyn am y wybodaeth hon gan yr Uned Camerâu Diogelwch; mae'r manylion cyswllt fel a ganlyn:

Uned Camerâu Diogelwch
Blwch Post 95
Trefforest
Pontypridd
CF37 9DH
Ffôn: 01443 660402
E-bost: swpctoadmins@south-wales.pnn.police.uk

(Ymateb yw hwn o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac fe'i rhyddhawyd ar 29/03/21)